

Alun Davies AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a  
Gwasanaethau Cyhoeddus  
Cabinet Secretary for Local Government and Public  
Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/ARD/4188/17

At:

Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Anfonir copi at:

Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol  
yng Nghymru

Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

20 Rhagfyr 2017

Annwyl Gydweithwyr

Rwy'n cyhoeddi heddiw, mewn Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, fanylion Setliadau Refeniw a Chyfalaf Terfynol Llywodraeth Leol ar gyfer 2018-19 i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru. Mae'r datganiad hwnnw ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Drwy'r cyhoeddiad hwn, rwy'n cynnig pennu bod cyllid refeniw craidd llywodraeth leol ar gyfer 2018-19 yn £4.214 biliwn. O ganlyniad, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, bydd cynnydd o 0.2 y cant yn y cyllid craidd cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol, ar sail tebyg at ei debyg, yn 2018-19 o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol.

Rwyf wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y setliad dros dro yn ofalus cyn penderfynu ar y setliad terfynol. Nid oedd yr ymatebion yn nodi unrhyw faterion a oedd yn gofyn am newid agwedd yn y setliad terfynol.

O'i gymharu â'r setliad dros dro a gyhoeddwyd ar 10 Hydref, mae'r setliad terfynol yn cynnwys £28.3 miliwn ychwanegol (ac eithrio cost y trefniadau ar gyfer yr isafswm cyllid). Mae hyn yn cynnwys £20 miliwn ychwanegol a neilltuwyd i lywodraeth leol drwy'r gyllideb derfynol a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr. Mae'r setliad terfynol hefyd yn cynnwys £7 miliwn arall a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr i'w ddefnyddio i helpu i gynyddu'r terfyn cyfalaf cyn dechrau codi tâl am ofal preswyl i £40,000, a fydd yn cael ei roi ar waith o fis Ebrill 2018. At hynny, mae'n cynnwys £1.3m ychwanegol i awdurdodau lleol ei ddefnyddio ar gyfer arfer eu pwerau disgresiwn i ddarparu rhyddhad wedi'i dargedu i gefnogi busnesau lleol a fyddai'n elwa fwyaf ar gymorth ychwanegol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru)  
[Correspondence.Alun.Davies@gov.wales](mailto:Correspondence.Alun.Davies@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn unol â'r adnoddau ychwanegol sydd wedi'u cynnwys yn y setliad terfynol, rwyf wedi ailystyried yr isafswm cyllid a gyhoeddwyd ym mis Hydref ac wedi darparu £807 mil o gyllid y tu allan i'r setliad i sicrhau na fydd unrhyw awdurdod yn gweld gostyngiad o fwy na 0.5 y cant o'i gymharu â'i ddyraniad a'i ychwanegiad cyllid ar gyfer 2017-18.

Roedd cynigion Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ddoe hefyd yn cynnwys £20 miliwn pellach ar gyfer Llywodraeth Leol yn 2019-20.

Bydd y cyllid cyfalaf cyffredinol heb ei neilltuo ar gyfer 2018-19 yn cael ei gynnal yn £143 miliwn dros y tair blynedd nesaf.

Bydd manylion llawn y setliad terfynol gan gynnwys yr *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol*, ynghyd â thablau ychwanegol, yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth hon, yn ogystal â'r manylion rwy'n eu rhyddhau am y grantiau refeniw a chyfalaf i'w darparu i lywodraeth leol, yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i osod eich cyllidebau a'ch lefelau'r dreth gyngor ar gyfer 2018-19.

Hoffwn eich atgoffa ei bod yn ofynnol i bob awdurdod lleol gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol sydd i'w gweld yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a hefyd y dyletswyddau cydraddoldeb penodol lle bo'n berthnasol. Dylid asesu effaith yr opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol.

Rhaid ichi hefyd ystyried eich dyletswyddau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg wrth baratoi eich cynlluniau ar gyfer 2018-19.

Mae'r setliad terfynol hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gynllunio'ch cyllidebau ar gyfer 2018-19. Rwy'n eich annog yn gryf i ystyried beth yw'r ffordd orau o drafod gyda'ch cymunedau lleol wrth lunio'ch cynigion a gwneud penderfyniadau ynghylch y gyllideb.

Byddaf yn awr yn symud ymlaen i osod Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol Rhif 1 ar gyfer 2018-19 i'w drafod yn y Cynulliad ar 16 Ionawr 2018.

Yr eiddoch yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun', with a horizontal line underneath it.

**Alun Davies AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus  
Cabinet Secretary for Local Government and Public Services